



Nos Iau, 09 Mai 2024 – 7.30yh  
Festri Salem, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 09 Mai 2024**  
am 7.30 yn Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
3. Datganiad o Fuddiant
4. Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf
5. Adroddiad Elusen Cymorth Mewn Angen Plwyf Hanesyddol Penmachno – (gohiriwyd)
6. Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
7. Gohebiaeth
8. Adolygu / Mabwysiadu Holl Bolisiâu, Adroddiadau, Yswiriant Y Cyngor
9. Adroddiad Cyllidol
  - a. Archwiliad 2022-23 wedi cwblhau
  - b. Archwiliad 2023-24 – Cadarnhau penodiad archwilydd mewnol
10. Materion Cynllunio
11. Materion eraill
12. Adolygiad cyflog y Clerc

**Presennol:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies  
Eryl Owain  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (Cyngorydd Sir)

**Ymddiheuriadau:**

Dim

Minutes of a meeting held on **Thursday 09 May 2024** at  
7.30 at Salem Chapel Vestry

1. Welcome and apologies for absence
2. Election of Chair and Deputy
3. Declaration of interest
4. Confirmation of the minutes from the previous meeting
5. A report from the Penmachno Charity – (postponed)
6. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
7. Correspondence
8. Review / Adopt All Council Policies, Reports, Insurance
9. Financial Report
  - a. Audit 2022-23 completed
  - b. Audit 2023-24 – Confirm the appointment of an internal auditor
10. Planning Applications
11. Any other business
12. Clerk's pay review

**Present:**

Bethan Corrigan  
Claire Roberts  
Dafydd Gwyndaf  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies  
Eryl Owain  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (County Councillor)

**Apologies:**

None

## Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Agorwyd y cyfarfod gan Dafydd Gwyndaf a wahoddodd enwebiadau ar gyfer swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol y byddai Eryl Owain yn cael ei ethol yn gadeirydd a Dylan Davies, Is-gadeirydd. Diolchwyd i Dafydd Gwyndaf am ei flynyddoedd lawer o waith caled fel Cadeirydd.

## Datganiad o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **07 Mawrth 2024** fel rhai cywir, Wil Edwards yn cynnig a Claire Roberts yn eilio.

## Adroddiad Elusen Cymorth Mewn Angen Plwyf Hanesyddol Penmachno

Nodwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei glywed yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

## Materion yn codi:

**Lorïau yng Nghwm Penmachno:** Adroddwyd bod y gwaith bellach yn nwylo Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Penderfynwyd ysgrifennu atynt a gofyn iddynt flaenoriaethu'r gwaith.

**Sgipiau:** Adroddwyd bod cwyn ffurfiol i'r Cyngor Sir wedi bod yn llwyddiannus ond wedi hynny roedd yr adran wedi ceisio anfonebu'r Cyngor Cymuned am y sgip yr oeddent wedi methu ei anfon. Penderfynwyd peidio mynd â'r mater ymhellach oherwydd bod y gwasanaeth sgip wedi ei ddiddymu.

**Toiled Cyhoeddus:** Mynegwyd diolch am y gwaith a wnaed gan y Clerc a'i ŵr. Penderfynwyd gosod llawr newydd dros yr haf.

**Cerbydau Goryrru:** Adroddwyd y bydd arwydd newydd yn cael ei osod yn fuan. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i sicrhau bod y lleoliad mwyaf priodol wedi ei ddewis.

**Diffibriliwr:** Adroddwyd bod hyfforddiant wedi ei drefnu yn y neuadd ar 21 Mai.

**Gwasanaeth Ffôn Symudol:** Adroddwyd bod y Clerc wedi anfon nifer o e-byst at BT/EE, y Swyddfa Gartref, CNC ac Awdurdod y Parc. Mae'r cais cynllunio ar gyfer mast ym Mhenmachno bellach wedi ei gymeradwyo. Er bod mwy o waith i'w wneud, mae BT/EE yn gobeithio troi

## Election of Chair and Deputy

The meeting was opened by Dafydd Gwyndaf who invited nominations for the posts of Chair and Deputy Chair of the Council. It was agreed unanimously that Eryl Owain would be elected chairperson and Dylan Davies Deputy Chair. Dafydd Gwyndaf was thanked for his many years of hard work as Chairperson.

## Declaration of interest

There were no declarations

## Confirmation of the minutes

The minutes of the **07 March 2024** meeting were accepted as a true record, proposed by Wil Edwards and seconded by Claire Roberts.

## A report from the Penmachno Charity

It was noted that the report will be heard at the July meeting.

## Matters arising:

**Lorries in Cwm Penmachno:** It was reported that the work is now in the hands of North and Mid Wales Trunk Road Agent. It was decided to write to them and ask for the work to be prioritised.

**Skips:** It was reported that a formal complaint to the County Council had been successful but subsequently the department had attempted to invoice the Community Council for the skip they failed to send. It was decided not to take the matter further because the skip service has been abolished.

**Public Toilet:** Thanks were expressed for the work carried out by the Clerc and his husband. It was decided to install a new floor over the summer.

**Speeding Vehicles:** It was reported that a new sign will be installed soon. It was decided to contact the County Council to make sure that the most appropriate location had been chosen.

**Defibrillator:** It was reported that training had been arranged for 21 May in the hall.

**Mobile Phone Reception:** It was reported that the Clerc had sent numerous emails to BT/EE, the Home Office, NRW and the Park Authority. The planning application for a mast in Penmachno has now been approved. Although there is more work to be done, BT/EE hope to turn on the mast in Cwm before long. The Penmachno

mast Cwm ymlaen cyn bo hir. Rhagwelir y bydd mast Penmachno wedi'i gwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

## Gohebiaeth

**Caeau i'r de o Hafod Dwryrd:** Adroddwyd bod nifer o bobl wedi bod yn ansicr a oes hawl i gerdded trwy gaeau i'r de o Hafod Dwryrd. Penderfynwyd cysylltu â'r tirfeddiannwr i weld a allai, er nad oedd llwybr cyhoeddus drwy'r caeau, roi caniatâd.

**EON:** Adroddwyd bod EON wedi anghofio anfon bil terfynol i'r Cyngor wyth mis yn ôl ond ei fod wedi cytuno i ddileu'r swm terfynol

**Cais Rhyddid Gwybodaeth:** Adroddwyd bod un o drigolion Cwm Penmachno wedi anfon Cais Rhyddid Gwybodaeth ynghylch treth a gasglwyd ac a wariwyd o fewn y pentref. Roedd y Clerc wedi esbonio'r broblem o wahanu incwm a gwariant yn seiliedig ar ward etholiadol.

## Adolygu / Mabwysiadu Holl Bolisïau, Adroddiadau, Yswiriant Y Cyngor

Penderfynwyd bod popeth mewn trefn dda.

## Adroddiad Cyllidol

### Archwilio 2022-2023

Adroddwyd bod Archwilio Cymru wedi cwblhau'r archwiliad.

### Archwilio 2023-2024

Adroddwyd bod y Clerc wedi gorffen y cyfrifon, bod archwilwyr mewnol wedi cwblhau eu gwiriadau, bod y ffurflen flynyddol wedi ei gweld a'i chymeradwyo gan y Cyngor ac roedd yr holl ddogfennau yn barod i'w hanfon at Archwilio Cymru.

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

## Materion Cynllunio

Adroddwyd nad oedd unrhyw geisiadau newydd i'w hystyried.

Penderfynwyd ysgrifennu at Awdurdod y Parc i gefnogi cyfyngiadau Erthygl 4 ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

mast is forecast for completion before the end of the year.

## Correspondence

**Fields south of Hafod Dwryrd:** It was reported that a number of people had been unsure whether there is a right to walk through fields south of Hafod Dwryrd. It was decided to contact the landowner to see if, despite there being no public path through the fields, he might give permission.

**EON:** It was reported that EON had forgotten to send a final bill to the Council eight months ago but had agreed to write-off the final amount.

**Freedom of Information Request:** It was reported that a resident of Cwm Penmachno had sent a Freedom of Information Request regarding tax collected and spent within the village. The Clerk had explained the problem of separating income and expenditure based on electoral ward.

## Review / Adopt All Council Policies, Reports, Insurance

It was decided that everything was in order.

## Financial Report

### 2022-2023 Audit

It was reported that Audit Wales had completed the audit.

### 2023-2024 Audit

It was reported that the Clerk had finished the accounts, internal auditors had completed their checks, the annual return had been seen and approved by the Council and all documents were ready to send to Audit Wales.

The Clerk provided a list of all financial transactions since the last meeting for analysis. It was agreed that everything was in order.

## Planning

It was reported that there were no new applications to consider.

It was decided to write to the Park Authority in support of Article 4 restrictions on second homes and short-term holiday lets.

## Materion eraill

**Arwydd Cwm Penmachno:** Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir drwsio'r arwydd sydd mewn cyflwr gwael.

**Cyffordd Ffordd Grenyn gyda'r B4406:** Penderfynwyd adrodd i'r adran ffyrdd am y problemau gyda gwelededd ar y gyffordd hon wrth droi i mewn i'r B4406.

**Swch – Cwm Penmachno:** Penderfynwyd adrodd pryderon am gyflwr yr eiddo i Awdurdod y Parc.

**Llwybr Cyhoeddus 55 – Y Waen:** Dangoswyd fideos o lifogydd difrifol y Llwybr. Penderfynwyd adrodd y mater i'r Cyngor Sir.

**Llwybr troed 64 – Swch Isa:** Adroddwyd bod y gamfa yn dal i aros am waith atgyweirio. Penderfynwyd adrodd y mater i Warden y Parc.

### Adolygiad cyflog y Clerc

Cwblhawyd adolygiad cyflog blynyddol y Clerc.

### Cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Iau 11 Gorffennaf 2024, 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Shiloh.

## Other matters

**Cwm Penmachno sign:** It was decided to ask the County Council to fix the sign which is in a bad state of repair.

**Grenyn Road Junction with B4406:** It was decided to report to the highways department the problems with visibility at this junction when turning onto the B4406.

**Swch – Cwm Penmachno:** It was decided to report concerns about the state of the property to the Park Authority.

**Footpath 55 – Y Waen:** Videos were shown of the serious flooding of the footpath. It was decided to report the matter to the County Council.

**Footpath 64 – Swch Isa:** It was reported that the stile is still awaiting repair. It was decided to report the matter to the Park Warden.

### Clerk's pay review

The Clerk's annual pay review was completed.

### Next meeting

The next meeting of the Council will be held on Thursday 11 July 2024, 7.30 at the Shiloh Community Centre.